

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Career Choices Dewis Gyrfa

Mae Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales, yn is-gwmni sydd ym mherchenogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae'r cwmni yn darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog* yng Nghymru.

*Gwasanaethau dwyieithog yw gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Yn unol â Mesurau'r Gymraeg (Cymru) 2011 mae CCDG fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau yn ymrwmo i'r gofynion a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg neu Lywodraeth Cymru.

Cyd-destun Polisi

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac fel cyflogwr. Rydym yn ymrwymedig i annog diwylliant cefnogol a chynhwysol ac i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar y busnes.

Nodir ein dyletswyddau o fewn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Fel corff cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru rydym yn gweithio tuag at nodau llesiant a gynhwysir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn ymrwmo i ystyried anghenion unigolion yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac i ddeall sut y caiff pobl wahanol eu heffeithio gan ein gwasanaethau ac i ystyried yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno/nodweddion hynny
- meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno/nodweddion hynny

Rydym yn ymrwmo ymhellach i ddatblygu cyfle cyfartal rhwng pobl o grwpiau gwahanol sy'n cynnwys yr angen i:

- ddileu neu leihau'r anfantais y mae pobl yn ei dioddef o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig
- diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig
- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gyfranogi lle mae cyfranogiad yn isel
- mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo'r ddealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Wrth ymgymryd â'n dyletswyddau byddwn yn ystyried ein dyletswyddau cyffredinol wrth

- Ddatblygu, gwerthuso ac adolygu polisiau
- Dylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau
- Comisiynu a chaffael gwasanaethau gan eraill

Gyda gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, gallwn nodi meysydd darpariaeth lle y bydd modd trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill. Enghraifft o hyn fyddai pe bai cyfleoedd penodol

neu sectorau cyflogaeth yn cael eu tangynrychioli gan unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir.

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl	Cyfrifoldeb
Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb arweiniol dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei ddyletswyddau a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau Adrodd i'r Bwrdd ar gydymffurfiaeth y sefydliad â'r Ddeddf ac amlygu meysydd sy'n peri pryder a'r camau a gymerwyd Adrodd i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth y sefydliad â'r Ddeddf ac amlygu meysydd sy'n peri pryder a'r camau a gymerwyd
<p>Pennaeth â chyfrifoldeb arweiniol dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (cyflogwr)</p> <p>Pennaeth â chyfrifoldeb arweiniol dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (gwasanaethau)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod yr holl bolisiau a chyfarwyddyd priodol yn cael eu diweddarau a'u hadolygu, gan adolygu'r polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trosfwaol yn flynyddol a chynnal gwybodaeth gyfoes am eu maes arweiniol Cefnogi timau priodol i sicrhau dealltwriaeth o'r gofynion a nodwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn arbennig mewn perthynas â CCDG/Gyrfa Cymru fel corff cyhoeddus. Cynnull a chadeirio'r grŵp llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a monitro camau gweithredu dilynol sy'n berthnasol i'w cyfrifoldeb arweiniol Cefnogi'r sefydliad i ddeall effaith arferion ar y polisi hwn gan wneud defnydd effeithiol o ddata perthnasol
Yr Holl Benaethiaid	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r polisi hwn.
<p>Penaethiaid Gwasanaethau i Gleientiaid</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Digidol a Chyfathrebu a Phennaeth Gwasanaethau i Randdeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau asesiadau priodol o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ymgymryd ag unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a gynigir gan ddefnyddio egwyddorion cysylltu ac ymgynghori Sicrhau bod pob dull cyfathrebu yn defnyddio sianelau priodol gan ystyried anghenion defnyddwyr gwahanol
Pennaeth TGCh	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu monitro'n briodol a'u cyflwyno'n effeithlon ar gyfer cynllunio gwasanaethau
Pennaeth Cyllid a Chyfleusterau	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cyfleusterau'r cwmni yn bodloni dyletswyddau'r sefydliad mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb Sicrhau bod y broses o gaffael a chomisiynu gwaith sydd wedi'i gontractio yn bodloni'r un dyletswyddau
Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (bydd y grŵp hwn yn cynnwys croesgynrychiolaeth o dimau, adrannau a gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd yng Nghymru)	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adolygu'r polisi yn flynyddol Nodi meysydd i'w gwella yn ein gwaith gan gynnwys anghenion dysgu a datblygu Derbyn tystiolaeth a chynghor gan sefydliadau partner gwahanol sy'n cynrychioli unigolion neu grwpiau i effeithio ar newid a gwelliannau
Pob gweithiwr	Cadw at y polisiau a chyfarwyddyd perthnasol ac ymrwymo

	i weithredu o fewn cod ymddygiad a gwerthoedd y sefydliad, fel gweithwyr a darparwyr gwasanaethau.
--	--

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu pobl a grwpiau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil, gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol.

Mae cymhwyso priodas a phartneriaeth sifil yn ymwneud â'r gofyniad i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon mewn cyflogaeth.

Ni chaiff y Gymraeg ei chynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, fodd bynnag caiff ei chynnwys yn y polisi hwn at ddibenion monitro, gweithredu ac adrodd. Caiff manylion penodol yn ymwneud â chydymffurfiaeth y sefydliad â'r safonau perthnasol a ragnodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg neu Lywodraeth Cymru eu nodi mewn polisi ar wahân.

Ymrwymiad

1. Mae ein gwasanaethau yn cefnogi cleientiaid i gynllunio'r broses o ddatblygu eu gyrfa ac i wneud penderfyniadau ar lwybrau drwy addysg, hyfforddiant a gwaith sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth realistig o'u galluoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Caiff ein gwerthoedd sefydliadol eu cymhwyso i gyd-destun ein gwasanaethau i gyd, sut bynnag y cânt eu darparu i'r defnyddiwr.
2. Wrth asesu unrhyw wasanaethau a gynigir bydd y sefydliad yn ystyried cyd-destun yr ardal leol lle y caiff y gwasanaethau eu cynnig. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried y ddemograffeg a nodweddion y boblogaeth sy'n berthnasol i naill ai rhanbarth neu awdurdod lleol wrth newid y gwasanaethau a gynigir gennym, a chynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
3. Bydd y defnydd o ddelweddau, iaith a'r cyfryngau amrywiol i hyrwyddo neu ddarparu gwasanaethau yn ystyried anghenion gwahanol ein cwsmeriaid.
4. Fel cyflogwr byddwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol gan sicrhau bod buddiannau gorau ein gweithwyr yn cael eu diwallu. Ymhlith y rhain mae polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol sy'n ymwneud â recriwtio, datblygiad personol, salwch ac absenoldeb, gwyliau sy'n addas i deuluoedd, disgyblu staff a chwynion, chwythu'r chwiban, gwahaniaethu, aflonyddu a bwlïo.
5. Caiff gweithwyr eu hannog yn weithredol i ddatblygu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. At y diben hwn, mae gan y sefydliad fodiwlau dysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gefnogi gweithwyr i feithrin gwell dealltwriaeth o'r nodweddion gwarchoddedig gwahanol. Mae mewnwyd y cwmni yn cynnal adnoddau sydd hefyd yn darparu cyfarwyddyd, gwybodaeth a manylion y sefydliadau sy'n cynrychioli

grwpiau neu bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig. Caiff mewnbynnau ychwanegol gan sefydliadau i gefnogi dealltwriaeth well o'n gweithwyr neu'r broses o ddatblygu sgiliau ychwanegol eu hystyried gan y grŵp llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gydag argymhellion yn seiliedig ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Prosesau

Cysylltu: Cynnwys ac ymgynghori:

Wrth ddylunio ac ystyried amcanion cydraddoldeb, rydym yn ymrwmo i

- ymgynghori â'n gweithwyr ein hunain (cynhaliwyd drwy arolwg, drwy fewnrwyd y cwmni neu gylchlythyr)
- asesu effaith ein polisiau ac arferion gan wneud defnydd o ddata priodol a pherthnasol yn ogystal â chael adborth gan sefydliadau partner
- cydraddoldeb strategol

Bydd aelodaeth y grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys rheolwyr sy'n cynrychioli trawstoriad o dimau a chyfarwyddbau'r sefydliad. Bydd y grŵp yn cytuno ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn monitro perfformiad y sefydliad mewn perthynas â'r targedau a'r camau gweithredu a noddwyd yn y cynllun. Caiff y cynllun ei ddiweddarau'n flynyddol a chaiff unrhyw ddiffygion eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr perthnasol.

Monitro: Gweithredu ac Adrodd

- Byddwn yn cyhoeddi ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ynghyd â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y sefydliad yn ogystal â mewnrwyd y cwmni er mwyn sicrhau eu bod ar gael i'n gweithwyr a'n cwsmeriaid.
- Caiff adroddiad dyletswyddau'r sector Cyhoeddus ei rannu â Llywodraeth Cymru, Bwrdd CCDG a'r grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'i roi ar fewnrwyd y cwmni.
- Caiff unrhyw Archwiliad sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth neu sy'n amlygu diffygion neu arfer da cysylltiedig eu rhannu gyda'r grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Penaethiaid perthnasol.
- Bydd prosesau hunanwerthuso'r sefydliad yn monitro ac yn amlygu arferion gorau a diffygion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Mae polisi a system cwynion y sefydliad yn galluogi'r sefydliad i nodi a yw adborth negyddol a dderbyniwyd yn awgrymu mynd yn groes i'r polisi hwn a byddai unrhyw gwynion o'r fath yn destun ymchwiliad ac yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Gweinyddu'r Ddogfen

Awdur: Ffiona W Williams
Pennaeth Datblygu Gwasanaethau

Math o bolisi: Cydymffurfiaeth

Dyddiad: Hydref 2017 (adolygwyd o fewn 12 mis)

Fersiwn: Drafft